**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1474/1447
Ein cyf/Our ref: HIDCC/10614/24

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
petitions@senedd.cymru

10 Rhagfyr 2024

Annwyl Carolyn,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 15 Tachwedd ar ran y Pwyllgor Deisebau ynghylch Deisebau P-06-1474 a P-06-1447 a dyfodol canolfannau ymwelwyr Cyfoeth Naturiol Cymru.

Rwy'n falch o roi gwybod i chi y bydd darpariaethau'r canolfannau ymwelwyr yn parhau ar waith tan 31 Mawrth 2025 wrth inni, yn ddi-oed, ymgysylltu â'r gymuned a darpar bartneriaid. Bydd hyn yn rhoi amser i Cyfoeth Naturiol Cymru drefnu mesurau dros dro ar bob safle yn barod ar gyfer dechrau'r flwyddyn ariannol newydd. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys contract consesiwn ar gyfer cart coffi ar bob safle, consesiwn hufen iâ ar gyfer misoedd yr haf a pharhau contractau eraill fel cynnal a chadw tir.

Efallai eich bod yn ymwybodol fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynnal tri sesiwn ymgysylltu â'r cyhoedd yn ddiweddar i roi gwybodaeth i gymunedau lleol. Cynhaliwyd y rhain ar gyfer Ynyslas (Neuadd Gymunedol y Borth, Stryd Fawr, Borth, SY24 5LH ddydd Llun, 25 Tachwedd, 7pm), Bwlch Nant yr Arian (Neuadd Penllwyn Capel Bangor, Aberystwyth, SY23 3LS ddydd Mawrth, 26 Tachwedd, 6:30pm) a Choed y Brenin (Neuadd Bentref Ganllwyd, Llanfar, Y Llai, Ganllwyd, LL40 2TF ddydd Mercher, 27 Tachwedd, 6:30pm).

Yn dilyn y cyfarfod ar 25 Tachwedd, agorodd Cyfoeth Naturiol Cymru fynegiant cymunedol o ddiddordeb am bedair wythnos i ganiatáu i aelodau'r cyhoedd gynnig ffyrdd o ddefnyddio'r safle yn Ynyslas. Mae Ynyslas mewn sefyllfa unigryw gan ei bod o fewn gwarchodfa natur ac mae ganddi anghenion a gofynion statudol penodol iawn, felly bydd yn cael ei gynnig fel cyfle cyfyngedig, cymunedol ar gyfer "defnyddio lle".

Mae angen datblygu ac ystyried ymhellach y cynnig ar gyfer Nant yr Arian a Choed y Brenin cyn cael cynnig i agor y farchnad gan ddilyn canllawiau caffael gwasanaethau cyhoeddus. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn anelu at wella darpariaeth y ganolfan ymwelwyr i helpu i gefnogi twristiaeth a gwasanaethu anghenion cymunedau lleol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried a oes lle i gynyddu gwerth y canolfannau ymwelwyr

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno gwariant y GIG yn ôl rhaglen ofal ar sail y cyflwr meddygol y mae'r gwariant yn ymwneud ag ef.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

i ddefnyddwyr ac a fydd ymestyn y cynnig y tu hwnt i fanwerthu ac arlwyo yn atyniad ychwanegol i'r diwydiant twristiaeth.

Rwy'n gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi a diolch unwaith eto am ysgrifennu ataf ar y mater hwn.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs